Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

Tystiolaeth wyddonol ar ledaeniad y feirws mewn lleoliadau lletygarwch

Y Pwyllgor Deisebau | 20 Medi 2021
Petitions Committee | 20 September 2021

Cyfeirnod: SR21/0497-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1171

Teitl y ddeiseb: Cyhoeddwch dystiolaeth glir fod COVID-19 yn cael ei ledaenu mewn tafarndai a bwytai lle mae mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith.

Testun y ddeiseb: Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i orfodi'r cyfyngiadau Covid presennol wedi cythruddo nifer. Mae llawer yn dadlau bod y cyfyngiadau'n mynd yn groes i hawliau dynol mewn cymdeithas ddemocrataidd wâr.

Dylid cynghori, yn hytrach na gorfodi pobl, i gadw at y cyfyngiadau, gan esbonio'r canlyniadau'n glir. H.y. y risg o gael eich heintio, o gael eich taro'n wael, o drosglwyddo'r haint i eraill a'r posibilrwydd y gall yr haint eich lladd.

Mae nifer yn poeni am yr effeithiau niweidiol ar yr economi a bywoliaeth pobl, am yr angen i ysbytai ohirio triniaethau nad ydynt yn gysylltiedig â Covid-19, ac am gyfyngiadau teithio difrifol etc.

Nid oes modd cael prawf oni bai'ch bod yn dangos symptomau, ac nid oes modd cael prawf gwrthgorff.

Hyn oll er nad yw ystadegau iechyd Llywodraeth Cymru yn cynnig unrhyw dystiolaeth bendant.

1. Cefndir

Cafwyd nifer o gyfnodau yn ystod y pandemig pan effeithiodd rheoliadau Llywodraeth Cymru ar dafarndai a bwytai. Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi llinell amser coronafeirws, sy'n tynnu sylw at ddatblygiadau allweddol yng Nghymru yn ystod y pandemig.

Cyhoeddwyd y cyfnod atal byr cenedlaethol yng Nghymru rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd 2020 mewn ymateb i gynnydd sydyn yn nifer yr achosion o'r coronafeirws ledled Cymru, ac yn sgil hynny roedd yn:

> rhaid i bob busnes nad yw'n gwerthu bwyd, busnes lletygarwch, gan gynnwys caffis, bwytai a thafarndai (oni bai eu bod yn darparu gwasanaeth cludfwyd), gwasanaethau cysylltiad agos, fel siopau trin gwallt a harddwch, a digwyddiadau a busnesau twristiaeth, fel gwestai, gau.

Ar 30 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, fod mesurau newydd yn cael eu cyflwyno "wrth i achosion o'r coronafeirws gyflymu yng Nghymru". O 4 Rhagfyr ymlaen, ni châi tafarndai, bariau, bwytai na chaffis weini alcohol ac roedd yn ofynnol iddynt gau erbyn 18.00 a dim ond darparu prydau parod ar ôl hynny.

Ar 1 Rhagfyr, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar gyfyngiadau mis Rhagfyr. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod "yr ymdrech enfawr a wnaed" gan y sector lletygarwch "i gydymffurfio â'r rheoliadau" ond y bu'n rhaid cyflwyno "cyfyngiadau tebyg ym mhob rhan arall o'r Deyrnas Unedig ac, yn wir, ledled y byd". Dywedodd y Prif Weinidog:

> Mae swyddogion iechyd a llunwyr polisi yn rhyngwladol wedi nodi bod yfed alcohol yn cynyddu'r risg o drosglwyddo, gan y gall ymbellhau cymdeithasol chwalu gan fod canfyddiad pobl o risg yn newid.

Trefnwyd y byddai Gweinidogion Cymru yn adolygu'r rheoliadau erbyn dydd Iau 17 Rhagfyr, ac o leiaf unwaith bob tair wythnos ar ôl y dyddiad hwnnw.

Wrth ymateb i ddatganiad y Prif Weinidog, lleisiodd Arweinydd yr Wrthblaid ar y pryd, Paul Davies AS, ei bryderon am ardaloedd yng Nghymru "lle nad oes unrhyw dystiolaeth bod rhyngweithio lletygarwch yn arwain at gynnydd i

gyfraddau trosglwyddo". Dywedodd y Prif Weinidog fod y “dystiolaeth yno” a chyfeiriodd at ddau bapur a gyhoeddwyd gan Grŵp Cynghori Gwyddonol Llywodraeth y DU ar Argyfyngau (SAGE) ym mis Tachwedd y nododd eu bod yn adolygu’r “mesurau sydd wedi llwyddo ledled y Deyrnas Unedig”. Cyfeirir at y papurau hyn isod.

Yn ddiweddarach, cafodd y cyfyngiadau eu codi. Ar 23 Ebrill 2021, cyhoeddodd y Prif Weinidog y gallai lletygarwch awyr agored ailagor o 26 Ebrill ymlaen. Ar 14 Mai 2021, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai Cymru gyfan yn symud i lefel rhybudd 2 o ddydd Llun 17 Mai, gan gynnwys ailagor lletygarwch dan do.

2. Cyhoeddiadau gan grwpiau cynghori gwyddonol

Mae dau brif gorff sy'n darparu cyngor gwyddonol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru.

Un o gyrff cynghori Llywodraeth Cymru yw’r Gell Cyngor Technegol (TAC). Mae'n darparu "cyngor gwyddonol a thechnegol i gefnogi penderfynwyr Llywodraeth Cymru yn ystod argyfyngau". Mae hyn yn cynnwys darparu diweddariadau rheolaidd gan Brif Swyddog Meddygol Cymru i uwch swyddogion Llywodraeth Cymru am wybodaeth gan SAGE. Mae’r Gell yn cyhoeddi crynodebau rheolaidd o'r cyngor y mae'n ei roi i Lywodraeth Cymru ynghyd ag ymchwil pwnc mwy penodol.

Grŵp Cynghori Gwyddonol Llywodraeth y DU ar Argyfyngau, SAGE , sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyngor gwyddonol amserol a chydgysylltiedig ar gael i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gefnogi penderfyniadau traws-lywodraethol y DU. Mae'n dibynnu ar wyddoniaeth allanol a chyngor gan grwpiau arbenigol, gan gynnwys ei is-grwpiau ei hun megis y Grŵp Gwyddonol ar Ffliw Pandemig - Modelu (SPI-M) a'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar Ffliw Pandemig - Ymddygiadau (SPI-B)). Mae Cyhoeddiadau gan SAGE hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth y DU.

2.1. Papurau SAGE y cyfeiriodd y Prif Weinidog atynt

Mae'r dystiolaeth a ddefnyddir i lywio'r penderfyniadau a wneir yn datblygu ac yn cael ei diweddaru'n barhaus. Ar 12 Tachwedd, trafododd SAGE bapur gan ei is-grŵp modelu (SPI-M) ar haenau yn Lloegr a mesurau eraill yn y gwledydd

datganoledig. Dyma un o'r papurau gan SAGE y cyfeiriodd y Prif Weinidog atynt yn y Cyfarfod Llawn ym mis Rhagfyr 2020. Roedd yr ail bapur y cyfeiriodd y Prif Weinidog ato gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Effaith Ymyriadau dyddiedig 19 Tachwedd ar ymyriadau y pedair gwlad yn ystod tymor yr hydref. Cafodd y papur hwn ei ddiweddaru ar 26 Tachwedd.

2.2. Lleoliadau lletygarwch a throsglwyddiad

Mae SAGE a'r Gell Cyngor Technegol wedi cyhoeddi papurau eraill sy'n cyfeirio at y sector lletygarwch a throsglwyddo COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys y papurau a ganlyn, heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Non-pharmaceutical interventions table, 21 Medi 2020 (SAGE);
- Y Grŵp Cyngor Technegol: cyfnod atal byr, 19 Hydref 2020;
- SARS-COV-2: Transmission Routes and Environments, 22 Hydref 2020 (SAGE);
- SAGE 63 minutes: Coronavirus (COVID-19) response, 22 Hydref 2020;
- i fynd i'r afael â COVID-19 a chamau lliniaru posibl, 25 Tachwedd 2020 (y Gell Cyngor Technegol);
- Transmission risk in the hospitality sector, 27 Tachwedd 2020 (SAGE). Papur sy'n rhoi trosolwg o bapurau SAGE ar y mater;
- Environmental Modelling Group (EMG) Transmission Group: Insights on transmission of COVID-19 with a focus on the hospitality, retail and leisure sector, 8 Ebrill 2021 (SAGE).

3. Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu gohebiaeth i'r Pwyllgor dyddiedig 8 Medi 2021. Mae'r ohebiaeth hon yn nodi bod y rheoliadau yng Nghymru yn cael eu hadolygu'n ffurfiol bob 21 diwrnod, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf:

> Pan nad yw cyfyngiadau'n gymesur mwyach, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w diwygio neu eu dileu. Mae'r adolygiadau'n ystyried y sefyllfaoedd iechyd y cyhoedd diweddaraf yn ogystal â goblygiadau ehangach o safbwynt ariannol ac o safbwynt lles. Maent hefyd yn ystyried tystiolaeth gan y Gell Cyngor Technegol sy'n cynnwys crynodebau wythnosol o'r cyngor, data gwyliadwriaeth (gan gynnwys gwerth R) ac adroddiadau am faterion penodol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrannu'n rheolaidd at waith y Grŵp

Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE), y mae ei gyhoeddiadau ar gael yma.

Mae'r ymateb yn nodi, er bod Cymru ar lefel rhybudd sero ar hyn o bryd, y bydd gofyniad cyfreithiol parhaus i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau gynnal asesiad risg coronafeirws, a rhoi " mesurau rhesymol ar waith i reoli risg y coronafeirws".

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.